Marwolaethau cysylltiedig â gwaith:

Protocol ar gyfer cydgysylltu

(Lloegr a Chymru)



Rhagair

Dyma drydydd fersiwn y protocol hwn, a oedd y cyntaf i'w gyflwyno yn 1998. Erbyn hyn y llofnodwyr i'r protocol yw:

- Gwasanaeth Erlyn y Goron;
- yr heddlu trwy eu corff proffesiynol Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu;
- Yr Awdurdod Geithredol Iechyd a Diogelwch;
- Awdurdodau lleol trwy eu cyrff cynrychiadol Cymdeithas Llywodraeth Leol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru;
- yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig;
- Swyddfa Rheoleiddio'r Rheilffyrdd;
- Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau; a'r
- Gwasanaethau Tân ac Achub trwy eu corff proffesiynol Cymdeithas Prif Swyddogion Tân.

Mae'r protocol yn anelu at bwysleisio'r pwysigrwydd o gydweithio er mwyn archwilio'n drwyadl i'r rheini sy'n gyfrifol am farwolaethau cysylltiedig â gwaith yn Lloegr a Chymru ac er mwyn eu herlyn yn briodol. Ers ei gyflwyno yn1998, mae'r protocol wedi dod yn agwedd brofedig ar gysylltiad effeithiol rhwng y sefydliadau llofnodol wrth archwilio i farwolaeth cysylltiedig â gwaith. Mae pob un o'r wyth sefydliad llofnodol yn cydnabod yr angen i awdurdodau archwilio ac erlyn ymgysylltu â'i gilydd ac i rannu gwybodaeth ac arfer gorau. Rydym yn derbyn bod y cyhoedd eisiau bod yn hyderus ein bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i gyd-gysylltu'n gweithgareddau, ac i gydweithio â'n gilydd er lles gorau diogelwch y cyhoedd a'r rheini a effeithir gan farwolaethau cysylltiedig â gwaith.

Mae newidiadau i drydydd fersiwn hwn y protocol yn cynnwys:

- adolygiad o baragraff 10.3 yn rhoi'r opsiwn, ble mae'n briodol, i gychwyn achosion troseddol cyn cwest ar gyfer troseddau iechyd a diogelwch;
- cynnwys Swyddfa Rheoleiddio'r Rheilffyrdd, Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau a Chymdeithas Prif Swyddogion Tân fel sefydliadau llofnodol; a
- diweddariadau i'r testun er mwyn adlewyrchu newidiadau sefydliadaol a gweinyddol.

Cymeradwywn y protocol diwygiedig a diweddaredig hwn. Credwn ei fod yn darparu fframwaith gwell ar gyfer cydgysylltu, ac y bydd parhau i'w ddefnyddio'n sicrhau bod y cyfan o'r wyth sefydliad llofnodol yn gweithio mewn partneriaeth er mwyn cyflawni'r safon uchel o broffesiynoldeb mae'r cyhoedd eisiau a'i haeddu.

Simon Foy
Comander yr Heddlu Metropolitan
Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu

John Ransford
Prif Weithredwr
Cymdeithas Llywodraeth Leo

Andrew Trotter
Prif Gwnstabl
Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig

Steve Thomas
Prif Weithredwr
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru



Keir Starmer QC
Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus
Gwasanaeth Erlyn y Goron

Alan Massey
Prif Weithredwr
Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau

Geoffrey Podger
Prif Weithredwr
Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch

Peter Holland
Llywydd
Cymdeithas Prif Swyddogion Tân



Richard Price
Prif Weithredwr
Swyddfa Rheoleiddio'r Rheilffyrdd

Cyflwyniad

Cytunwyd y protocol hwn rhwng:

- Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE);
- Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu (ACPO);
- Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig (BTP);
- Cymdeithas Llywodraeth Leol;
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru;
- Cymdeithas Erlyn y Goron (CPS);
- Swyddfa Rheoleiddio'r Rheilffyrdd (ORR);
- Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau (MCA); a
- Chymdeithas Prif Swyddogion Tân (CFOA).

Mae'n gosod yr egwyddorion ar gyfer cydgysylltu effeithiol rhwng y partïon mewn cysylltiad â marwolaethau cysylltiedig â gwaith yn Lloegr a Chymru, ac mae ar gael i'r cyhoedd. Mae protocol ar wahân yn bodoli yn Yr Alban. Yn neilltuol, mae'n delio â digwyddiadau ble, yn dilyn marwolaeth, mae tystiolaeth yn awgrymu y gallai tramgwydd troseddol heblaw tramgwydd iechyd a diogelwch fod wedi'i gyflawni. Mae'r protocol yn mynd i'r afael â materion ynghylch cydgysylltu cyffredinol ac ni fwriedir iddo drafod arferion gweithredol y sefydliadau llofnodol.

Mae gan yr heddlu, CPS ac awdurdodau gorfodi perthnasol wahanol rolau a chyfrifoldebau mewn cysylltiad â marwolaeth cysylltiedig â gwaith. Diffinir awdurdod gorfodi perthnasol fel y rheolydd â chyfrifoldeb am y gweithgaredd neu'r gweithle dan sylw ac mae'n cynnwys HSE, ORR, awdurdodau lleol, MCA a'r Gwasanaethau Tân ac Achub.

Mae HSE, awdurdodau lleol ac ORR yn gyfrifol, dan adran 18 y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati 1974 (Deddf HSW), am wneud trefniadau digonol ar gyfer gorfodi deddfwriaeth iechyd a diogelwch â'r bwriad o sicrhau iechyd, diogelwch a lles gweithwyr ac o amddiffyn eraill, yn bennaf y cyhoedd.

Mae'r MCA yn gyfrifol, dan y Ddeddf Masnachlongau 1995, am orfodi deddfwriaeth iechyd a diogelwch cysylltiedig â gwaith ar longau masnachol o unrhyw faint ac yn achos llongau o'r DU mae hyn yn perthyn unrhyw le yn y byd ac yn achos llongau eraill tra'u bod yn nyfroedd y DU.

Mae'r Gwasanaethau Tân ac Achub yn gyfrifol am orfodi'r Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 ymhob math o safle ag eithrio safleoedd a gynhwysir mewn tŷ a ddefnyddir fel annedd preifat sengl.

Mae gan bob un feysydd penodol o gyfrifoldeb, y gosodir manylion pellach arnynt yn Atodiad A'r protocol hwn.

Mae awdurdodau gorfodi eraill sydd â chyfrifoldeb am orfodi iechyd a diogelwch, neu ddeddfwriaeth debyg arall. Rhestrir rhai o'r rhain yn Atodiad A.

Nid yw'r Awdurdod Hedfan Sifil (CAA), a Chomisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu (IPCC) yn llofnodwyr i'r protocol hwn, ond mae'r ddau wedi cytuno i gydymffurfio ag egwyddorion y protocol.

Ar hyn o bryd, dim ond yr heddlu all ymchwilio i dramgwyddau troseddol difrifol (heblaw am dramgwyddau a diogelwch) fel dynladdiad (ai'n gorfforol neu'n esgeulustod difrifol), a dim ond y CPS all benderfynu a fydd y fath achos yn mynd ymlaen. Hefyd bydd yr heddlu eisiau sefydlu'r amgylchiadau o gwmpas marwolaeth cysylltiedig â gwaith er mwyn cynorthwyo cwest y crwner.

Fel arfer erlynir tramgwyddau iechyd a diogelwch gan yr awdurdod gorfodi perthnasol yn unol â pholisi gorfodi cyfredol. Hefyd gallai'r CPS erlyn tramgwyddau iechyd a diogelwch, ond fel arfer mae'n gwneud felly dim ond wrth iddynt erlyn tramgwyddau troseddol difrifol eraill, fel dynladdiad, sy'n codi o'r un amgylchiadau.

Wrth wneud penderfyniad ynghylch y posibilrwydd o erlyn, bydd y CPS neu'r awdurdod gorfodi perthnasol yn adolygu'r dystiolaeth yn ôl Cod Erlynwyr y Goron er mwyn penderfynu a oes cyfle realistig i gael euogfarnac, os felly, a oes angen erlyniad er lles y cyhoedd. Mae rhaid i awdurdodau gorfodi sydd wedi llofnodi'r Concordat Gorfodi ddilyn yr egwyddorion a'r gweithdrefnau oddi mewn iddo ac hefyd Cod Cydymffurfio'r Rheolyddion.

Mae egwyddorion sylfaenol y protocol hwn fel sy'n dilyn:

- gwneir penderfyniad priodol ynghylch erlyn yn seiliedig ar ymchwiliad cadarn i'r amgylchiadau o gwmpas marwolaethau cysylltiedig â gwaith;
- Bydd yr heddlu'n gwneud ymchwiliad ble mae awgrym bod tramgwydd troseddol difrifol wedi'i gyflawni (heblaw am dramgwydd iechyd a diogelwch), a bydd yr awdurdod gorfodi perthnasol yn ymchwilio i dramgwyddau iechyd a diogelwch. fel arfer bydd ymchwiliad ar y cyd, ond ar yr achlysuron prin ble na fyddai hyn yn briodol, bydd cydgysylltu a chydweithio o hyd rhwng y partïon sy'n ymchwilio;
- cyd-drefnir y penderfyniad i erlyn, ac fe'i gwneir heb lawer o oedi;
- hysbysir teulu'r ymadawedig a thystion yn addas; a
- bydd y partïon i'r protocol yn cynnal mecanweithiau effeithiol ar gyfer cydgysylltu.

Ym mha amgylchiadau fydd y protocol hwn yn gymwys?

At ddibenion y protocol hwn, marwolaeth cysylltiedig â gwaith yw marwolaeth a achosir gan ddigwyddiad sy'n codi o waith neu sy'n gysylltiedig â gwaith. Hefyd mae'r egwyddorion a osodir yn y protocol hwn yn perthyn i achosion ble mae'r dioddefwr yn dioddef anafiadau sydd mor ddifrifol bod awgrym eglur, yn ôl barn feddygol, bod marwolaeth yn debygol.

Bydd achosion ble fydd yn anodd penderfynu a yw marwolaeth yn gysylltiedig â gwaith o fewn cwmpas y protocol hwn, er enghraifft, y rheini sy'n codi o rai ddigwyddiadau trafnidiaeth ffordd, neu mewn carchardai neu sefydliadau gofal iechyd, neu yn sgil gollyngiad nwy. Mae rhaid ystyried pob marwolaeth ar ei hunan, ar ei ffeithiau neilltuol, yn ôl cyfarwyddyd mewnol sefydliadol, gan wneud penderfyniad a ddylid ei ddosbarthu fel marwolaeth cysylltiedig â gwaith. Wrth benderfynu'r cwestiwn, bydd yr awdurdodau gorfodi'n cynnal trafodaethau gan gytuno ar gasgliad heb oedi.

1 Datganiad o fwriad

1.1 Yng nghamau cynnar ymchwiliad, nid yw'n amlwg bob tro a yw unrhyw dramgwydd troseddol difrifol wedi'i gyflawni. Mae'r partïon i'r protocol yn ymrwymedig i sicrhau y bydd unrhyw ymchwiliad i farwolaeth cysylltiedig â gwaith yn drwyadl ac yn briodol, gan gytuno i gydweithio'n agos er mwyn cyflawni hyn. Dylai pendefyniadau mewn cysylltiad â'r person a fydd yn arwain yr ymchwiliad, a'r cyfeiriad y bydd yn ei ddilyn, fod yn amserol, wedi'i hysbysu gan y dystiolaeth a'r arbenigedd technegol gorau sydd ar gael, a dylid cymryd lles ehangach y cyhoedd i ystyriaeth. Os bydd unrhyw broblem ynghylch pwy fydd yn ymgysylltiedig ag unrhyw farwolaeth cysylltiedig â gwaith, yna bydd y partïon yn cydweithio er mwyn cyrraedd casgliad.

2 Gweithredu cychwynnol

2.1 Dylai heddwas sy'n mynychu digwyddiad sy'n cynnwys marwolaeth cysylltiedig â gwaith drefnu, yn ôl gweithdrefnau llu'r heddwas ei hunan sy'n rheoli marwolaethau heb eu hegluro, i:

- adnabod, diogelu, cadw a rheoli'r lleoliad, ac unrhyw le perthnasol arall;
- oruchwylio a recordio popeth sy'n digwydd;
- hysbysu uwch-swyddog goruchwylio;
- ofyn a yw'r cyflogwr neu'r person cyfrifol arall sy'n rheoli'r safle neu'r gweithgaredd wedi hysbysu'r awdurdod gorfodi perthnasol; a
- chysylltu â'r awdurdod gorfodi perthnasol a thrafod â hwy, gan gytuno ar drefniadau ar gyfer rheoli'r lleoliad, ar gyfer ystyried mynediad i eraill, ac ar gyfer gweithdrefnau trafod lleol er mwyn sicrhau diogelwch y cyhoedd.

2.2 Dylai heddwas o radd oruchwylio fynychu'r lleoliad ac unrhyw le perthnasol arall er mwyn asesu'r sefyllfa, er mwyn adolygu'r gweithredu a wnaed hyd yn hyn ac i dderbyn cyfrifoldeb am yr archwiliad. Os bydd staff o unrhyw awdurdod ymchwilio neu orfodi arall yn mynychu cyn bod yr heddlu'n cyrraedd, dylent sicrhau bod yr heddlu wedi'u galw, a chadw'r lleoliad yn unol â'r gweithredu cychwynnol (uchod) nes bod yr heddlu'n cyrraedd.

3 Rheoli'r ymchwiliad

3.1 Dylai ymchwiliadau gael eu rheoli'n broffesiynol bob tro, â chyfathrebu rhwng y sefydliadau llofnodol yn cael ei gynnal drwy'r amser. Yn gyffredinol dylai ymchwiliadau gael eu gwneud ar y cyd, ag un o'r partïon yn darparu arweiniad, neu uchafiaeth, fel mae'n briodol. Hefyd efallai y bydd ymchwiliad yn galw am gydgysylltu ag unrhyw awdurdod gorfodi perthnasol arall a allai fod â chysylltiad, a gallai gynnwys cydgysylltu â'r CPS.

3.2 Trwy gydol cyfnod yr ymchwiliad, dylai'r heddlu a'r awdurdod gorfodi perthnasol adolygu cynnydd yr ymchwiliad yn gyson. Dylid cytuno ar gerrig milltir a'u monitor, a dylid cofnodi penderfyniadau polisi a phenderfyniadau allweddol.

3.3 Dylai'r heddlu a'r awdurdod gorfodi perthnasol gytuno ar:

- sut yn union i ddefnyddio adnoddau;
- sut y datgelir tystiolaeth rhwng partïon;
- sut i gydgysylltu cyfweld tystion, cyfarwyddo arbenigwyr ac ymchwilio i arddangosion fforensig;
- sut, ac i ba raddau, y dylid ymchwilio i fethiannau corfforol neu sefydliadol;
- strategaeth ar gyfer hysbysu teulu'r ymadawedig, tystion a chyfranogion eraill fel y crwner, o ddatblygiadau yn yr ymchwiliad; a
- strategaeth gyfryngau i gymryd i ystyriaeth sensitifrwydd teulu'r ymadawedig a'r rheini a oedd yn ymgysylltiedig â'r digwyddiad, ac i hyrwyddo cysondeb agwedd at adrodd.

3.3 Mewn rhai ymchwiliadau mawr penodol gallai fod o fudd i ffurfio grŵp cydgysylltu strategol er mwyn sicrhau cyfathrebu rhyng-sefydliadol effeithiol, ac er mwyn rhannu gwybodaeth a phrofiadau perthnasol.

4 Gwneud penderfyniadau

4.1 Ble mae'r ymchwiliad yn peri amheuon y gallai tramgwydd troseddol difrifol (heblaw am dramgwydd iechyd a diogelwch) fod wedi achosi'r farwolaeth, bydd yr heddlu'n derbyn uchafiaeth am yr ymchwiliad a byddant yn gweithio mewn partneriaeth â'r awdurdod gorfodi perthnasol.

4.2 Ble mae'n dod yn amlwg yn ystod yr ymchwiliad nad oes digon o dystiolaeth bod tramgwydd troseddol difrifol (heblaw am dramgwydd iechyd a diogelwch) wedi achosi'r farwolaeth, dylai'r awdurdod gorfodi perthnasol, drwy gytuno, gymryd yr ymchwiliad drosodd. Dylai'r ddau barti gofnodi'r fath bendefyniad mewn ysgrifen.

4.3 Ble mae'r awdurdod gorfodi perthnasol yn ymchwilio i'r farwolaeth, a darganfyddir gwybodaeth newydd a allai gynorthwyo'r heddlu wrth ystyried a

yw tramgwydd troseddol difrifol (heblaw am dramgwydd iechyd a diogelwch) wedi'i gyflawni, yna bydd yr awdurdod gorfodi perthnasol yn trosglwyddo'r wybodaeth newydd honno i'r heddlu. Gall arolygydd yr awdurdod gorfodi wneud hyn, ond hefyd gellir ei wneud gan gyfreithwyr yr awdurdod gorfodi drwy'r CPS. Yna dylai'r heddlu ystyried a ddylid ail-gychwyn uchafiaeth am yr ymchwiliad. Dylid cofnodi'r penderfyniad a'r rhesymau mewn ysgrifen.

4.4 Hefyd bydd achlysuron prin ble, fel canlyniad i gwest y crwner, adolygiad barnwrol neu achosion cyfreithiol eraill, efallai y bydd angen ystyried y dystiolaeth a'r ffeithiau cwmpasol ymhellach. Ble mae hyn yn digwydd, bydd yr heddlu, yr awdurdod gorfodi perthnasol ag uchafiaeth am yr ymchwiliad a'r CPS yn gweithio mewn partneriaeth i sicrhau penderfyniad cynnar. Hefyd efallai y bydd angen am ymchwilio pellach.

5 Datgelu deunydd

5.1 Mae rhaid i ddatgelu ddilyn y gyfraith a'r weithdrefn sefydlog drwy'r amser.

5.2 Ble mae ymchwiliad wedi digwydd, dylid rhannu unrhyw ddeunydd a gafwyd, yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau cyfreithiol, rhwng yr heddlu, yr awdurdod gorfodi perthnasol a'r CPS. Efallai y bydd angen gweithdrefnau trafod arbennig mewn achosion penodol. Hefyd dylid cytuno ar y sefydliad a fydd yn gyfrifol am gadw'r arddangosion, dogfennau a deunydd perthnasol arall.

6 Ymholiadau arbennig

6.1 Yn achos rhai ddigwyddiadau, yn arbennig y rheini sy'n cynnwys marwolaethau lluosog, gall yr HSE, â chydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol, gyfeirio y cynhelir ymchwiliad cyhoeddus. Fel arall, gall Bwrdd yr HSE awdurdodi'r HSE, neu unrhyw berson arall, i ymchwilio gan gynhyrchu adroddiad arbennig.

6.2 O dan y fath amgylchiadau, bydd yr heddlu'n darparu unrhyw gefnogaeth a thystiolaeth angenrheidiol i'r person a benodir i gynnal yr ymchwiliad cyhoeddus, neu i gynnal yr ymchwiliad arbennig, yn amodol ar y rheoliadau perthnasol.

6.3 Gallai problemau cyfreithiol cymhleth godi pan fydd ymchwiliadau cyhoeddus ac ymchwiliadau neu erlyniadau troseddol cyfochrog. Bydd y llofnodwyr yn anelu at hysbysu cadeiryddion yr ymchwiliad yn gyson ynghylch cynnydd yr ymchwiliad.

6.4 Weithiau bydd oedi wrth adrodd am ymchwiliad cyhoeddus er mwyn aros i achosion troseddol ddod i ben, ac ar achlysuron eraill, efallai na fydd y fath oedi oherwydd y bydd o les mawr i'r cyhoedd i gyhoeddi'r adroddiad ac

argymhellion yr ymchwiliad cyhoeddus yn gyflym. Yn y naill achos neu'r llall, bydd y llofnodwyr i'r protocol yn cydweithio er mwyn sicrhau y gwneir y penderfyniad i erlyn cyn gynted â phosibl ac y cychwynnir unrhyw achosion troseddol heb oedi.

7 Cyngor cyn y cyhuddiad

7.1 Dylid hyrwyddo cydgysylltu agos gan yr heddlu, neu'r awdurdod gorfodi perthnasol, â'r CPS er lles gorau'r ymchwiliad a'r broses erlyn fel cyfanrwydd. Nid oes angen aros nes bod ffeil yn barod i'w chyflwyno cyn bod yr heddlu'n agor trafodaethau â'r CPS. Annogir yr heddlu, ar unrhyw adeg yn sgil marwolaeth cysylltiedig â gwaith, i ymgynghori â'r CPS am gyngor, nid yn unig ynghylch natur unrhyw gyhuddiadau, ond hefyd ynghylch problemau cyfreithiol a thystoliaethol o gwmpas yr ymchwiliad, yn cynnwys cyngor am dystiolaeth arbenigol.

7.2 Dylai'r heddlu geisio cyngor CPS cyn cyhuddo unigolyn o unrhyw dramgwydd troseddol difrifol (heblaw am dramgwydd iechyd a diogelwch) sy'n codi o farwolaeth cysylltiedig â gwaith.

7.3 Mae rhaid i'r heddlu ymgynghori ag Adran Troseddau Arbennig a Gwrthderfysgaeth y CPS am gyngor pan yw unrhyw ystyriaeth o gyhuddo sefydliad o unrhyw dramgwydd troseddol difrifol (heblaw am iechyd a diogelwch).

8 Y penderfyniad i erlyn

8.1 Cymerir y penderfyniad i erlyn unrhyw dramgwydd troseddol difrifol (heblaw am dramgwydd iechyd a diogelwch) sy'n codi o'r farwolaeth gan y CPS yn ôl y Cod i Erlynwyr y Goron. Gellir erlyn y fath dramgwydd naill ai gyda neu heb dramgwyddau iechyd a diogelwch perthnasol. Gwneir y penderfyniad yn dilyn trafodaethau â'r heddlu, a, ble mae'n briodol, yr awdurdod gorfodi perthnasol.

8.2 Ni ddylai fod oedi diangen wrth gyrraedd y penderfyniad ar erlyn. Os oes oedi, yna bydd y CPS yn hysbysu'r heddlu a'r awdurdod gorfodi perthnasol gan egluro'r rhesymau am yr oedi, a byddant yn dal i'w hysbysu ynghylch cynnydd y broses o wneud penderfyniad.

8.3 Dylai'r CPS gymryd y canlyniadau i deulu'r ymadawedig i ystyriaeth bob tro wrth benderfynu a ddylid erlyn neu beidio, ac unrhyw farnau a fynegir ganddynt.

8.4 Ar ôl i'r CPS wneud ei benderfyniad, mae rhaid ei gyfathrebu i'r heddlu, a'r awdurdod gorfodi perthnasol, cyn gynted ag ymarferol, er mwyn i'r awdurdod gorfodi perthnasol benderfynu cyn gynted â phosibl a ddylid erlyn am dramgwyddau iechyd a diogelwch os nad yw'r CPS yn gwneud felly.

8.5 Ble mae gan awdurdod gorfodi perthnasol uchafiaeth am yr ymchwiliad, yna cymerir y penderfyniad ynghylch a ddylid erlyn am dramgwyddau iechyd a diogelwch heb oedi diangen. Yna dylai'r awdurdod gorfodi perthnasol hysbysu'r heddlu ynghylch ei benderfyniad.

8.6 Ni chyhoeddir unrhyw benderfyniad ar erlyn tan yr hysbysir teulu'r ymadawedig, Swyddfa'r Crwner ac unrhyw ddiffynyddion posibl yn ôl y strategaeth gyfryngau a gytunwyd.

8.7 Cyhoeddiad y penderfyniad yn ôl y strategaeth gyfryngau a gytunwyd.

8.8 Ble na fydd erlyniad gan y CPS, bydd y cyhoeddiad o benderfyniad y CPS yn cynnwys y ffaith y gwneir penderfyniad yr awdurdod gorfodi perthnasol yn unol â pharagraff 10.3 isod. Mae'n bolisi i'r CPS osod ei resymau mewn ysgrifen a'u hanfon i deulu'r ymadawedig, ac i gynnig cwrdd â hwy er mwyn trafod y rhesymau am gyrraedd y penderfyniad.

9 Yr erlyniad

9.1 Ble mae'r CPS a'r awdurdod gorfodi perthnasol yn ceisio erlyn tramgwyddau sy'n codi o'r un digwyddiad, cychwynnir a rheolir yr erlyniad (-au) ar y cyd.

9.2 Dylai fod cynhadledd gynnar a fynychir gan y CPS, yr heddlu a'r awdurdod gorfodi perthnasol i ystyried rheoli'r achosion. Yn neilltuol, dylid trafod, gytuno a chofnodi'r materion dilynol:

- pwy fydd yn derbyn y prif gyfrifoldeb am yr erlyniad;
- natur a geiriad y cyhuddiadau (yn cynnwys, ble mae'n briodol, ystyried unrhyw gyhuddiadau amgen a phleon derbyniol);
- trefniadau am gadw a datgelu deunydd;
- amserlen ar gyfer rheoli'r achos;
- trefniadau am hysbysu teulu'r ymadawedig a thystion;
- cyhoeddiad y penderfyniad;
- trefniadau am gynnal cysylltiad yn ystod yr erlyniad, a chytundeb ynghylch mecanwaith ar gyfer ymgynghori, os bydd problem yn codi sy'n peri i'r achosion atal neu i dystiolaeth beidio cael ei chynnig;
- cytundeb ynghylch unrhyw gyfarwyddiadau penodol i adfocad yr erlyniaeth; ac
- unrhyw broblemau eraill ynglŷn â rheoli'r achos.

9.3 Ble mae'r CPS yn erlyn, a ble nad oes erlyniad gan yr awdurdod gorfodi perthnasol ond mae'r awdurdod gorfodi perthnasol yn dymuno cadw diddordeb yn yr achos, bydd y CPS yn dal i hysbysu'r awdurdod gorfodi perthnasol hwnnw ynghylch cynnydd a chanlyniad yr achos.

10 Crwner EM

10.1 Bydd yr heddlu neu'r CPS yn hysbysu'r crwner pan y gwneir cyhuddiad am dramgwydd troseddol difrifol sy'n codi o farwolaeth cysylltiedig â gwaith (heblaw am dramgwydd iechyd a diogelwch). Yna gall y crwner ohirio'r cwest tan ddiwedd yr erlyniad troseddol. Hefyd gall y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus ofyn i'r crwner ohirio'r cwest ble mae achosion penodol o flaen llys ynadon sy'n perthyn i farwolaeth.

10.2 Ble mae'r CPS yn erlyn, ac mae'r awdurdod gorfodi perthnasol wedi cyflwyno dogfennau neu adroddiad i'r crwner ynghylch marwolaeth cysylltiedig â gwaith, rhoddir copi i'r CPS ac i'r heddlu hefyd. Yn yr un modd, ble mae'r awdurdod gorfodi perthnasol yn erlyn, ac mae'r heddlu wedi cyflwyno dogfennau neu adroddiad i'r crwner ynghylch marwolaeth cysylltiedig â gwaith, rhoddir copi i'r awdurdod gorfodi perthnasol hefyd. Ymhob achos, ni ellir datgelu dogfennau nag adroddiadau i unrhyw barti heb gydsyniad y parti a'i cyflwynodd yn wreiddiol.

10.3 Ble mae'r awdurdod gorfodi perthnasol wedi cwblhau ymchwiliad, byddant yn ystyried a yw'n briodol i gyhuddo unrhyw dramgwyddau iechyd a diogelwch ar y cam hwnnw, neu a ddylid aros am ganlyniad cwest y crwner cyn gwneud y penderfyniad hwnnw. Wrth wneud y pendefyniad byddant yn ymgynghori, fel sy'n briodol, â'r heddlu, y CPS, y crwner, teulu'r ymadawedig ac unrhyw berson arall a allai fod â diddordeb cyfreithlon.

11 Cydgysylltu cenedlaethol

11.1 Mae'r Pwyllgor Cydgysylltu Cenedlaethol yn cynnwys cynrychiolwyr o'r heddlu; BTP; y CPS; HSE; awdurdodau lleol; ORR; MCA a CFOA. Bydd yn cwrdd o leiaf dwywaith y flwyddyn er mwyn adolygu gweithredu'r protocol ac er mwyn ystyried yr angen am newidiadau i'r trefniadau.

12 Cydgysylltu lleol

12.1 Mae'r Pwyllgorau Cydgysylltu Lleol yn cynnwys cynrychiolwyr o'r llofnodwyr, a enwebir ar lefelau lleol. Bydd y pwyllgorau hyn yn cwrdd ar sylfaen reolaidd er mwyn trafod materion sydd o gyd-ddiddordeb a chyd-bryder, ac yn arbennig, gweithredu'r protocol o safbwynt lleol, er mwyn monitro effeithiolrwydd y protocol, ac er mwyn cyfathrebu unrhyw broblemau i'r Pwyllgor Cydgysylltu Cenedlaethol.

12.2 Bydd y Pwyllgorau Cydgysylltu Lleol yn gyfrifol am sicrhau bod llinell effeithiol a adnabyddir o gyfathrebu lleol rhwng yr wyth sefydliad.

Atodiad A: Canllaw cyffredinol i orfodi'r Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati 1974 (Deddf HSW) a deddfwriaeth berthnasol.

Rhennir gorfodi'r Ddeddf HSW a'r ddeddfwriaeth berthnasol rhwng HSE, awdurdodau lleol ac ORR. Manylir ar ganllaw cyffredinol i ddyraniad y prif weithredu isod. Am gyfarwyddyd manylach ar ddyraniad gweithgareddau neu safleoedd rhwng HSE ac awdurdodau lleol cyfeiriwch at wefan HSE: www.hse.gov.uk/lau/lacs/23-15.htm. Am gyfarwyddyd manylach ar weithgareddau neu safleoedd a ddyrennir i ORR cyfeiriwch at www.hse.gov.uk/ aboutus/howwework/framework/mou/orrmou.pdf.

Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch

Mae HSE'n gyfrifol am orfodi deddfwriaeth iechyd a diogelwch cysylltiedig â gwaith mewn:

- ffatrïoedd a safleoedd gweithgynhyrchu eraill, yn cynnwys rhai safleoedd atgyweirio cerbydau modur;
- gweithfeydd chemegol a phurfeydd;
- gwaith adeiladu;
- pyllau glo, chwareli a safleoedd tirlenwi;
- ffermydd, amaethyddiaeth a choedwigaeth;
- ysbytai, yn cynnwys cartrefi nyrsio;
- llywodraeth leol, yn cynnwys eu swyddfeydd a'r cyfleusterau a redir ganddynt;
- ysgolion, colegau a phrifysgolion;
- gosodiadau, cynhaliaeth ac atgyweiriadau nwy domestig;
- cyfleustodau, yn cynnwys generadu ynni, dŵr a gwastraff;
- meysydd ffair (teithio neu osod));
- meysydd awyr (heblaw am adeiladau terfynfa, meysydd parcio ac adeiladau swyddfeydd);
- yr heddlu ac awdurdodau tân;
- cyrff y Goron, yn cynnwys Y Weinyddiaeth Amddiffyn;
- carchardai;
- dociau:
- safleoedd niwclear;
- safleoedd nwy ac olew ar y môr, technolegau ynni sy'n datblygu a gweithgareddau cysylltiedig, yn cynnwys badau sy'n gosod pibellau, a llongau cefnogaeth i blymwyr;
- peryglon mawr ar y tir, yn cynnwys piblinellau, trosglwyddo a dosbarthu nwy;
- trawsgludo nwyddau peryglus ar y ffordd;
- gweithgynhyrchu, trawsgludo, trafod a diogeledd ffrwydron;
- rhannau cyffredin safleoedd domestig.

Awdurdodau lleol

Yn Lloegr a Chymru, mae awdurdodau lleol yn gorfodi'r Ddeddf HSW ynglŷn â rhai safleoedd annomestig, yn cynnwys:

- siopau a safleoedd manwerthu, yn cynnwys stondinau marchnad, golchdai a weithredir gan ddarnau arian, a gwerthwyr symudol;
- y mwyafrif o weithgareddau a seilir mewn swyddfa;
- rhai warysau cyfanwerthu a manwerthu;
- gwestai, gwestai bach, hosteli, safleoedd carafanau a gwersylla, tai bwyta, tafarnau a safleoedd trwyddedig eraill;
- hamdden ac adloniant, yn cynnwys clybiau nos, sinemâu, clybiau cymdeithasol, syrcasau, cyfleusterau chwareuon, clybiau iechyd, campfeydd, ysgolion marchogaeth, caeau rasys, llogi cychod pleser, traciau rasio ceir, amgueddfeydd, theatrau, orielau celf a chanolfannau arddangosfeydd.
- mannau addoli a threfnyddion angladdau;
- gofal anifeiliaid, yn cynnwys sŵau, stablau lifrai a chytiau;
- gwasanaethau therapiwtig a phrydferthwch, yn cynnwys tylino, sawnau, heulfannau, lliwio croen, tyllu croen a chorff, a thrin gwallt;
- cartrefi gofal preswyl;
- gofal plant cyn ysgol a redir yn breifat, e.e. meithrinfaoedd.

Swyddfa Rheoleiddio Rheilffyrdd

Mae ORR yn gyfrifol am orfodi deddfwriaeth iechyd a diogelwch cysylltiedig â gwaith mewn:

- rheilffyrdd, systemau tram a thanddaearol o fewn Prydain Fawr;
- uniondeb seilwaith rheilffyrdd;
- cynllunio, cynnal a defnyddio cerbydau rheilffyrdd neu wageni;
- paratoi trenau;
- symudiadau trenau a chludo nwyddau;
- gweithredu gorsafoedd;
- trawsgludo nwyddau peryglus ar y rheilffyrdd.

Awdurdodau Tân ac Achub

Yn Lloegr a Chymru, mae awdurdodau Tân ac Achub yn gyfrifol am orfodi'r Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 ymhob math o safleoedd ag eithrio safleoedd a gynhwysir mewn tŷ a ddefnyddir fel annedd breifat sengl.

Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau

Mae'r MCA'n gyfrifol am orfodi deddfwriaeth iechyd a diogelwch cysylltiedig â gwaith ar longau masnachol o unrhyw faint ac yn achos llongau'r DU mae hyn yn perthyn rhywle yn y byd ac yn achos llongau eraill tra'u bod yn nyfroedd y DU. Mae deddfwriaeth yn cwmpasu'r meysydd dilynol:

- adeiladwaith llongau;
- cynllunio, cynnal a defnyddio'r llong yn ddiogel;
- cynllunio, cynnal a defnyddio offer y llong yn ddiogel;
- trefniadau byw a lles y criw;
- trawsgludo nwyddau peryglus ar y môr;
- yr holl weithrediadau llongau sy'n perthyn i ddiogelwch.

Awdurdodau ac asiantaethau eraill

Mae awdurdodau ac asiantaethau eraill â chyfrifoldebau am ymchwilio i'r Ddeddf HSW neu ddeddfwriaeth debyg arall a'u gorfodi. Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft:

- Y Comisiwn Ansawdd Gofal (safleoedd gofal iechyd a chymdeithasol) yn Lloegr;
- Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ac Arolygiaeth Iechyd Cymru;
- Asiantaeth yr Amgylchedd;
- Yr Awdurdod Hedfan Sifil;
- Safonau Masnach;
- Yr Adran Arloesedd Busnes a Sgiliau (BIS);
- Y Gangen Ymchwilio i Ddamweiniau ar y Môr (MAIB);
- Y Bwrdd Ymchwilio i Ddamweiniau ar y Rheilffyrdd (RAIB);
- Y Bwrdd Ymchwilio i Ddamweiniau yn yr Awyr (AAIB).

Ble mae marwolaeth cysylltiedig â gwaith wedi'i achosi gan ddamwain yn yr awyr, ar y môr neu ar y rheilffyrdd yn cael ei hymchwilio yna mae dyletswyddau ymchwilio ychwanegol ar Gangen Ymchwilio Damweiniau (AIB) berthnasol yr Adran Drafnidiaeth. Mae Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gwahanol (MoU) rhwng yr AIBau'n gasgliadol a'r CPS, ac ar ben hynny mae pob un o'r AIBau ag MoUau â'r asiantaethau perthnasol eraill. Mae rhaid darllen y memoranda hyn ar y cyd â'r ddogfen hon.

Cysylltu y tu allan i oriau

Cysylltu ag HSE y tu allan i oriau

Nid yw HSE yn wasanaeth brys. Mae wedi cynhyrchu cyfarwyddyd i'r heddlu ac i ystafelloedd rheoli gwasanaethau brys eraill sy'n disgrifio sut i gysylltu ag arolygwyr HSE y tu allan i oriau.

Cysylltu ag awdurdodau lleol y tu allan i oriau

Bydd trefniadau lleol yn bodoli ar gyfer cysylltu â'r arolygwyr iechyd a diogelwch awdurdodedig o fewn awdurdodau lleol. Fel arfer gellir cysylltu drwy neuadd y dref leol neu swyddfeydd y cyngor yn ystod oriau'r swyddfa ac ar rif frys y tu allan i oriau'r swyddfa. Efallai y bydd manylion cysylltu brys ar gael hefyd ar wefan eich cyngor lleol.

Cysylltu ag ORR y tu allan i oriau

Nid yw ORR yn wasanaeth brys. Mae wedi cynhyrchu cyfarwyddyd i'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig ac ystafelloedd rheoli gwasanaethau brys eraill sy'n disgrifio sut i gysylltu ag ORR y tu allan i oriau. Y rhif i'w defnyddio yw 020 7282 3910.

Cysylltu â'r Gwasanaethau Tân ac Achub y tu allan i oriau

Gellir cysylltu â'r Gwasanaethau Tân ac Achub y tu allan i oriau drwy eu hystafelloedd rheoli brys.

Cysylltu ag MCA y tu allan i oriau

Mae Gwylwyr y Glannau Ei Mawrhydi'n rhan o'r MCA ac mae'n wasanaeth brys 999 24-awr. Gellir cysylltu â swyddog gorfodi dyletswydd yr MCA drwy unrhyw un o'r Canolfannau Cydgysylltu Achub ar y Môr a leolir o gwmpas arfordir y Deyrnas Unedig.

Darllen pellach

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth yn y cyhoeddiadau di-dâl hyn:

Cyngor a gwybodaeth i deuluoedd sydd mewn profedigaeth (Cymru a Lloegr) MISC199W (ar gael gan arolygwyr HSE, nid Llyfrau HSE)

Datganiad Polisi Gorfodi HSE41W(ad1) 2009 – ar gael ar wefan HSE ar www.hse.gov.uk

Health and safety in local authority enforced sectors. Section 18: HSC guidance to local authorities MISC488 Llyfrau HSE 2002

Mae'r Cod i Erlynwyr y Goron, wedi'i ddiweddaru ddiwethaf yn Chwefror 2010, ar gael ar wefan y CPS ar www.cps.gov.uk.

Gwybodaeth bellach

Am wybodaeth ar iechyd a diogelwch, neu i adrodd am anghysondebau neu anghywirdebau yn y cyfarwyddyd hwn, ewch i www.hse.gov.uk/. Gallwch weld cyfarwyddyd HSE ar-lein a gallwch archebu cyhoeddiadau prisiedig ar y wefan. Hefyd mae cyhoeddiadau prisiedig HSE ar gael gan siopau llyfrau.

Mae cyhoeddiadau Gwasanaeth Erlyn y Goron ar gael ar wefan y CPS ar www.cps.gov.uk.

Gwefan Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu: www.acpo.police.uk

Swyddfa Rheoleiddio'r Rheilffyrdd: Eglurir rôl gyffredinol ORR ar wefan ORR ar www.rail-reg.gov.uk ac ynglŷn â rheoleiddio iechyd a diogelwch ar www.rail-reg.gov.uk/server/show/nav.1210

Gwefan Cymdeithas y Prif Swyddogion Tân: www.cfoa.org.uk

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau ar wefan yr MCA: www.dft.gov.uk/mca/

Mae'r ddogfen hon ar gael ar: www.hse.gov.uk/pubns/wrdp1 .pdf

© ⓗ *Hawlfraint y Goron* Os dymunwch ailddefnyddio'r wybodaeth hon ewch i www.nationalarchives.gov.uk/information-management/our-services/ crown-copyright.htm am fanylion. Cyhoeddwyd yn gyntaf 09/11

Cyhoeddwyd gan y Pwyllgor Cydgysylltu Cenedlaethol am y protocol Marwolaethau Cysylltiedig â Gwaith (Lloegr a Chymru) WRDP1W/E 09/11